# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 8fed Tachwedd, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.00 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffith (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Elin Hughes, Carys E. Williams

## 61. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd y Cadeirydd** yr aelodau i'r cyfarfod a drefnwyd drwy gyfrwng 'zoom' oherwydd fod Alys Lloyd Jones a Hawys o'r Adran Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd, yn ymuno i darfod 'Ardal Ni 2035.'
Diolchodd i'r Cynghorydd Michael Strain am hwyluso'r cyfarpar.

## 62. ARDAL NI 2035

**Croesawodd** y Cadeirydd Alys Jones Jones a Hawys i'r cyfarfod i drafod ymhellach yr ymatebion 'roedd y Cyngor eisoes wedi ei roi iddynt (gweler cofnod 52 o gofnodion y Cyngor 11eg Hydref, 2021).
Bellach 'rydym wedi derbyn crynodeb o'r hyn drafodwyd gan y Swyddog a bydd yn mynd yn rhan o'r cofnodion.
**Diolchwyd** i'r ddwy o Gyngor Gwynedd ac fe fu iddynt ymadael a'r cyfarfod.

## 63. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd dau ddatganiad a nodir hynny o dan yr eitem berthnasol.

## 64. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 11eg Hydref, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Siôn Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams.
**Materion yn Codi**

**(a) Eitem 51 – Materion Ffyrdd a Llwybrau**

**Adroddwyd** fod yr arwydd 'Dim yn addas i Loriau' bellach wedi ei symud i lawr yr allt ym mhentref Sarn Mellteyrn.
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

(b) **Comin Bryncroes**

**Cyflwynwyd** atebiad gan Gyfarwyddwr W.F. Clayton a'r Cwmni yn dweud, fel rhan o'u cytundeb, y byddant yn adfer y tir yn dilyn cwblhau'r gwaith. Hefyd dywedodd fel rhan o'r Cynllun Budd Cymunedol y byddant yn cyflwyno mainc/lle eistedd ar y Comin.
**Penderfynwyd** anfon at Cwmni yn gofyn:

a) Pwy roddodd ganiatad iddynt ddefnyddio y Comin?
b) Ymholi ymhellach a yw'n ffeithiol gywir fod Ymgymerwyr yn cyfrannu canran o'r gytundeb i'r Gymuned, ac os yn gywir, pa ffigwr y sonir amdano.
c) Traffig trwm yn y pentref yn peri gofid i rieni sy'n mynd a'u plant i'r Ysgol Feithrin.

65. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais C21/1010/32/LL – trosi adeilad allanol i ddarparu annedd fforddiadwy ynghyd ag addasiadau i'r fynedfa gerbydol, gosod gwaith trin pecyn a gwaith cysylltiedig – Caerau, Llangwnnadl.

(b) Cais C21/0955/32/LL – codi adeilad newydd er mwyn storio peiriannau amaethyddol – Aelwyd, Sarn Mellteyrn.
(Datganwyd diddordeb yn yr eitem yma gan Y Cynghorwyr Glenys Williams a Siôn Williams a bu iddynt fynd i'r ystafell aros tra bu'r Cyngor yn ystyried y cais).

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais gan nodi gyda'r cais cyntaf (a) uchod, mai tŷ ar gyfer person lleol yw hwn ac nid tŷ haf.

66. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, at y ffaith fod cryn ddefnydd 'nawr ar y ffordd o Nanhoron am Efailnewydd (oherwydd fod y ffordd ym Mhenrhos yn cael ei chau oherwydd llifogydd) ac fod angen barbio y cloddiau mewn mannau ac hefyd fod cyflwr y ffordd yn wael ac angen sylw.
**Yn y cyswllt hwn,** dywedodd y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, ei fod wedi cael cwynion fod yna oryrru i lawr o Lys Meddyg am y Feddygfa ym Motwnnog ac fod cais eisoes wedi ei yrru at Gyngor Gwynedd yn gofyn am gael ymestyn y cyfyngiad cyflymder i 30 mya neu osod 'speed bumps. Hefyd yr un oedd y cais o flaen Tai Cyngor Tre'r Ddol, Sarn. 'Roedd yn disgwyl am atebiad.
**Penderfynwyd** nodi'r wybodaeth.

67.. **MYNWENT LLANDEGWNNING**

**Cyflwynwyd** lluniau o giat Mynwent yr Eglwys (copi eisoes wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen). Diolchwyd i'r Cynghorydd Carys H. Evans a Carwyn Evans am drefnu i dynnu'r lluniau.
Trafod yr arddull ar gyfer y giatiau a **phenderfynwyd** glynu at yr un arddull a'r rhai sydd ym mynedfa'r Fynwent yn barod.

68. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

69. **AWDURDOD I DALU**

Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

70. **STRATEGAETH AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI**

**Cyflwynwyd** a nodwyd e-bost gan Howard Huws, Cydlynydd Ymgyrch Dwristiaeth Cylch yr Iaith. (Copi wedi ei anfon at bob aelod gyda'r rhaglen).

71. **DATBLYNIAD ARFAETHEDIG YM MHENTREF PWYLIAID PENRHOS, PWLLHELI**

**Cyflwynwyd** llythyr gan Sioned Edwards, Cynllunydd Cyswllt CADNANT yn rhoddi gwybodaeth am y datblygiad arfaethedig ym mhentref Pwyliaid Penrhos, Pwllheli. Nodwyd yn y llythyr (copi wedi ei roi i bob aelod) fod y cynlluniau i'w gweld mewn mannau ym Mhwllheli, hefyd gwahoddiad i leoliadau eraill cyfagos er cael gwybodaeth am y datblygiad.
**Penderfynwyd** ei adael i bob unigolyn fynd i weld y cynlluniau os dymunant.

## Sgwrs Ardal Ni 2035 Cyngor Cymdeithas Botwnnog 08/11/21

## Sut ydych chi'nteimlo am eich ardal fel lle i fyw ar hyn o bryd: Beth sy'n dda am yr ardal?

- Amgylchedd braf i fyw ynddo
- Ardal Gymraeg
- Cymreictod yn gryf
- Cymunedau a chymdogaeth dda
- Harddwch ar ei orau ym Mhen Llŷn

## Beth sydd ddim mor dda am yr ardal?

- Gorddibyniaeth ar y diwydiant twristiaid sy'n rhoi cyflogaeth tymhorol a ddim yn talu cyflogau da; hyn ddim yn denu pobl ifanc sydd wedi mynd i ffwrdd i gael cymwysterau yn nol i'r ardal a llawer un yn gorfod mynd i ffwrdd i weithio. Pobl yn symud i fewn i'r ardal, ac felly oed poblogaeth yn mynd yn hŷn. Pobl ddŵad yn rhoi pwysau ar adnoddau iechyd. Poblogaeth yn cynyddu x 20 yn yr haf, sy'n tynnu oddi ar adnoddau e.e. gwasanaethau dwr, sbwriel. Llawer o bobl ddim yn talu treth, yn teimlo ein bod yn sybsideiddio.
- Pobl yn prynu tai, a'u troi yn dai haf a'u cofrestru fel busnes. Yn trosi garej yn anheddiad, neu roi carafán yn y gerddi, ac yn gosod y rhain hefyd. Yn rhoi pwysau ar wasanaethau, ddim yn cyfrannu i mewn i goffrau'r Cyngor. Trigolion yr ardal yn gorfod talu. Pobl sydd ar gyflogau is yn gorfod talu.
- Llai o bobl wedi eu cofrestru i bleidleisio, felly posib bydd llai o gynghorwyr lleol. Dim digon o gynrychiolaeth wleidyddol. Llai o gynrychiolaeth hefyd yn golygu mwy o bwysau ar y cynghorwyr.
- Prisiau tai a diffyg tai i bobl ifanc – tai yn gwerthu o fewn wythnos, ddwy. Dim cyfle i bobl ifanc gystadlu.
- Cyflogau isel a diffyg gwaith – pob dim yn waith tymhorol, prinder gwaith sefydlog i gael morgais. Gor ddibyniaeth ar dwristiaeth, y sector gyhoeddus sy'n talu orau. Diffyg swyddi technoleg yn yr ardal, pobl yn gallu gweithio gartre ond dim digon yn cael o fuddsoddi yn ardal Llŷn. Datblygiadau yn digwydd yn nwyrain, de y wlad a dim llawer o ddatganoli yn digwydd.
- Pethau da i gyd o dan fygythiad – gor ddatblygu o ran twristiaeth yn difetha y manteision o fyw mewn ardal wledig. Nifer anhygoel o dwristiaid yn yr haf yn enwedig yn sgil Covid. Pobl lleol yn methu â mynd i ardaloedd fel Aberdaron gan bod hi'n rhy brysur, meysydd parcio a glannau môr yn llawn.
- Angen mwy o bwyslais ar iaith a diwylliant. Pwysig fod pethau yn y Gymraeg ar y teclynnau iPad, ffôn ar gyfer pobl ifanc e.e. drwy gynhyrchu 'app' Cymraeg iaith sy'n rhoi cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg. Angen canllaw i bobl ar gyfer y dechnoleg.
- Llifogydd diweddar yn achosi problemau amgylcheddol a thrafnidaeth yn yr ardal; Lôn Penrhos a Lon Ceredigion o dan fygythiad sylweddol gyda faint o ddŵr sy'n llifo i mewn ac angen sylw.
- Sbwriel, pobl ddim yn mynd â sbwriel o 'na. Dim digon o hel sbwriel. Twristiaid yn yr haf yn cynyddu, ond diffyg buddsoddiad yn swyddogion y Cyngor e.e. jetskis yn amharu o ran twrw ac ar fywyd gwyllt mewn ardal AHNE, SPA, SSI. Dylai bod swyddogion yn yr ardaloedd er mwyn gwneud yn siŵr fod twristiaid yn ymddwyn mewn modd ystyriol. Cod ymarfer gwirfoddol, ond ddim yn cael ei blismona. Eisiau gwerthu harddwch, prydferthwch a thawelwch yr ardal felly mae'n bwysig i ymwelwyr barchu'r ardal.
- Campervans yn parcio yn anghyfreithlon. Gwagio carthion – Porth Colmon. Dim digon o blismona. Angen i'r Llywodraeth ddod â mwy o arian i ddelio gyda'r cynnydd mewn twristiaeth. Nifer y tai haf yn cynyddu ac wedi eu cofrestru fel busnes ond ddim yn cyfrannu i'r gyllideb ac yn rhoi straen ar Gyngor Gwynedd
- Problem i gael pobl i weithio fel gofalwyr, ardal Botwnnog ydi'r ardal sydd wedi'i heffeithio fwyaf gyda hyn yng Ngwynedd. Wedi gwneud addasiadau i'r ffordd o weithio gyda'r patrwm oriau gwaith, yn cael diwrnod cyfan o gyflog rŵan, ond yn dal yn ei chael yn anodd i ddenu gofalwyr
- Llawer o bobl wedi symud i'r ardal a dim yn sylweddoli falle ymhen 10 blynedd y byddent ar ben eu hunain. Hefyd yn sgil y nifer o dai haf, pobl hŷn yn teimlo unigrwydd yn fwy oherwydd prin

- Rhestr aros ar gyfer cael asesiad i dderbyn gofal, a backlog i bobl gael asesiad, angen mwy o bobl i asesu fel bod pobl yn cael gofal yn syth e.e. yn y ganolfan dementia. Gwaith papur yn cael mwy o flaenoriaeth na lles y person
- Dim digon o gefnogaeth i les pobl ifanc. Yn byw mewn ardal wledig ar wasgar, wedi bod yn cael addysg o adref, ddim wedi bod yn cael cymysgu. Heb gael rhwydwaith cefnogaeth ffrindiau, dim digon o fuddsoddi mewn clybiau ieuenctid. Angen cefnogaeth, ac angen i fudiadau gael eu gwneud yn fwy amlwg i bobl ifanc, e.e. ar y we, angen cael ei wneud yn fwy hysbys mewn ysgolion.

## Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn y lle delfrydol. Beth fyddai wedi newid ermwyn hyn ddigwydd?

- Swyddi da a chartref eu hunain ym Mhen Llŷn – mae pobl Cymru eisiau cartref am eu hoes ond mae dieithriaid yn mynd ac yn dod
- Cyfle i deuluoedd gael addasu eu adeiladau allanol i'w plant gael cartref, nid fel ac y mae ar hyn o bryd, ceisiadau yn cael eu gwrthod ond yn cael eu caniatau petai'r cais yn cael ei roi i mewn ar gyfer llety gwyliau. Angen caniatâd cynllunio i newid tŷ i fusnes. Pobl yn cael caniatâd i osod tŷ i ymwelwyr, ond ddim yn cael caniatâd i addasu adeilad allanol. Cartref ydio i bobl ifanc. Os nad yw pobl ifanc yn medru fforddio byw yma, bydd y gwasanaethau yn mynd â'u pen iddyn nhw, mae angen i'r Llywodraeth sylweddoli hynny.
- Mae angen newid polisiau cynllunio i ateb gofynion cefngwlad, ar hyn o bryd y drefn gynllunio wedi ei llunio ar gyfer ardaloedd trefol fwy poblog
- Cydbwysedd - gorddibyniaeth ar dwristiaeth, a dim byd arall yma. Anodd cael diwydiant i Ben Llŷn – oherwydd costau cludiant.
- Creu diwydiant er cael swyddi da a chyflogau uwch – ar hyn o bryd y safon addysg yn well ar y cyfan yma ond nid yw'r swyddi /cyflogau yn adlewyrchu hynny.
- Llywodraeth yn son am fuddsoddi mewn ynni adnewyddol. Hyn yn dechnoleg a fyddai'n gallu cael ei sefydlu yng ngogledd Cymru e.e. solar panels, air heat source pumps. Angen gweithredu a buddsoddi yn y math yma o bethau, swyddi gwyrdd sgiliau uchel sy'n talu'n dda.
- Lle i fuddsoddi mwy yn y môr, a defnyddio'r môr i gynhyrchu ynni. Gyda ynni adnewyddol mae'n bwysig cael strategaeth i sicrhau buddiannau i economi Pen Llŷn, yn hytrach na chwmnïau tu allan o'r ardal yn dod i wneud y gwaith. Angen hyfforddi pobl leol, mi allai ein colegau lleol hyfforddi e.e. i gynnal a chadw.
- Treialu ceir trydan gyda gofalwyr. Gofalwyr ddim eisiau defnyddio'u ceir eu hunain gan bod angen mynd lawr lonydd ffermydd sy'n tynnu gwerth oddi wrth y swydd.
- Cynnyrch môr ym Mhen Llŷn, llawer ohono yn cael ei allforio i'r cyfandir, China a Korea. Creu uned brosesu bwyd môr, hefyd cigoedd. Galw amdano, a byddai'n creu amrywiaeth o swyddi. Ychwanegu gwerth at y cynnyrch drwy ei brosesu. Diffyg buddsoddiad wedi bod gyda chlwstwr bwyd Môn a Menter a Busnes a'r mater yma wedi'i godi nifer o weithiau yn barod.

## Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newid sydd eu angen?

- Llywodraeth Cymru a Chyngor Gwynedd
- Ffatri laeth – cyflogwr mawr
- Cyfoeth Naturiol Cymru – mae nhw'n gyndyn i lanhau afonydd, poeni am fywyd gwyllt yn fwy na phobl sy'n cael dwr yn eu tai
- BT – cysylltiad gwe yn yr ardal yn dal llawer o fusnesau yn nol – lle i gydweithio'n nes a buddsoddi mwy a tynnu mwy o ddiwydiant i'r ardal

## Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?

- Prosiect cynnyrch fferm gyda'r Hen felin yn Aberdaron e.e. ffermwyr yn cynhyrchu ŷd a'i falu yn lleol i gynhyrchu blawd
- Gwaith Ynni Llŷn gyda chynllun tyrbeini gwynt y Swnt a gwaith ymgynghori ar gerbydau trydan.